CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
26 Gorffennaf 2017 AM 7.00 O'R GLOCH YN YSGOL BRYNGWRAN

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, E Huws, I Rowlands, R G Parry, C Hughes, C Ll Thomas, Caitlin McGonigle (PCSO) a Cara Williams (PCSO)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng S Parry, K Humphreys, G Parry, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i dwy aelod newydd Cyng C Hughes a Cyng C Ll Thomas a'r ddwy PCSO Dechreuwyd gyda sgwrs am Lon Salem. Cynigodd y PCSO's cadw llygaid ar y traffig a'r plant yn croesi pan fydd yr Ysgol yn ailagor. Bydd banners arafwch yn cael ei osod ar y barriers. Dywedodd yr Heddlu bosib y gallent cynnig arian cyfatebol neu rodd tuag at groesfan pelican. Byddant yn gwneud ymholiadau.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14 Mehefin 2017.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes chwarae** - Mae'r Cadeirydd wedi derbyn dau pris am gosod y beinciau picnic £1196 a £1400. Cytunwyd i dderbyn pris Ian Lloyd am £1196. Mae'r "bark" wedi cael ei osod (rodd gan Cyng I Rowlands) a mae y Clerc wedi cyflwyno cais am grant i cael swing.
4.2	**Lon Salem** - gweler uchod
4.3	**Cynefin (Lon Salem)** - mewn llaw
4.4	**Plaque (carreg yr Eisteddfod)** - Mae'r Clerc wedi cael y plac a bydd trefniadau yn cael ei wneud i osod.
4.5	**Capel Salem.** Mae'r mater yn nwylo'r Cyngor Sir
4.6	**Twnnel Helyg** - Cytunwyd i ofyn i Mrs Dee Walker gwneud y gwaith twtio yn blynyddol
4.7	**Baw cwn** - Mae'r Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir trosglwyddo y mater i Kingdom
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** Dywedodd y Cadeirydd bod y gwair yn y fynwent (y rhan sydd ddim yn cael ei defnyddio) wedi cael ei dorri a bod angen edrych ar torri coed. Dywedodd hefyd bod Dwr Cymru wedi gorffen y gwaith ym Mro Mynydd ac bod y dwr yn awr yn lan. Gofynnwyd i'r Clerc trefnu i'r gwair yn y maes chwarae cael ei dorri cyn y Diwrnod Hwyl
	Llofnod…….Cadeirydd 13.09.17

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Pwyllgor Safonnau
6.1	Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. Bydd y Cyngor Sir yn cynnig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. Mwy o wybodaeth i'w ddilyn.
	Adran Polisi
6.2	Llythyr gan y Cyngor Sir yn gofyn i pob Cyngor Cymuned enwebu pencampwyr iaith. Cynigodd Cyng C Hughes cynrychioli Bryngwran.
	Adran Addysg
6.3	Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 - gwybodaeth yn unig
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	Gan Bwyll - Ystadegau am y cyfnod 07.09.16 - 13.09.16 cofnodwyd cyflymder cyfartalog 32.74mya. Cofnodwyd y gyflymder 85fed canran yn 40.3mya.
7.2	Unllais Cymru - Cyfarfod Blynyddol 30.09.17 - gwybodaeth yn unig
7.3	Llythyr di-enw - Cytunwyd i peidio gweithredu ymhellach gan fod y llythyr yn di-enw
8	**MATERION ERAILL**
8.1	N Highley - ymddiswyddiad. Dywedodd y Clerc bod Cyng N Highley wedi penderfynnu ymddiswyddo. Bydd y Clerc yn hysbysebu y sedd wag.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	H O Davies (y Gofeb) 5694.00
9.2	Playsafety Ltd £79.80
9.3	I Lloyd £1196.00
10	**Materion ar gyfer y rhaglen nesaf**
10.	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 13.09.17